Cofnodion cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd

# Ffydd mewn Addysg: Safbwyntiau ar y cwricwlwm newydd yng Nghymru a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Dydd Mawrth 30 Mehefin 2020 rhwng 14.00 a 15.00 drwy Zoom

**Yn bresennol:**

1. Alyson Godfrey
2. Ameira Bahadur-Kutkut
3. Angela Hill
4. Angela Keller (Siaradwr)
5. Carol Wardman, yr Eglwys yng Nghymru
6. Christine Abbas, y gymuned Baha'i
7. Colin Harris
8. Curtis Shea, Swyddfa Darren Millar AS
9. Darren Millar AS, Cadeirydd
10. Dave Brownnutt
11. David Emery MBE, Byddin yr Iachawdwriaeth
12. Gethin Rhys, Cytûn
13. Jenny Rathbone AS
14. Jim Stewart (cofnodwr)
15. Jonah MacGill
16. June Osborne (Siaradwr)
17. Katie McColgan, Eglwys Iesu Grist Saint y Dyddiau Diwethaf
18. Mavis Harris
19. Peredur Owen Griffiths, Cytûn
20. Philip Lord
21. Rheinallt Thomas, Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru
22. Russell George AS
23. Samina Khan
24. Sian Rees, Cynghrair Efengylaidd Cymru
25. Suzy Davies AS
26. Vici Pici

**Ymddiheuriadau**:

1. Ainsley Griffiths, yr Eglwys yng Nghymru
2. Alan Lansdown
3. Andrew Misell, Alcohol Concern Cymru
4. Barrie Phillips
5. Colin Heyman, Synagog Ddiwygiedig
6. Llyr Gruffydd AS

**Cofnodion:**

1. Dechreuodd Darren Millar AS y cyfarfod a chroesawodd bawb.

2. Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac ailetholwyd y swyddogion a ganlyn:

    a. Cafodd Darren Millar AS ei ailethol yn unfrydol fel Cadeirydd, ar ôl cael ei enwebu gan Suzy Davies AS a'i eilio gan Jenny Rathbone AS
    b. Nid etholwyd Is-gadeirydd gan mai Mohammed Ashgar, a fu farw'n ddiweddar, oedd yn y rôl hon am flynyddoedd lawer.
    c. Cafodd Jim Stewart ei ailethol yn unfrydol fel Ysgrifennydd, ar ôl cael ei enwebu gan Russell George AS.

3. Cyflwynodd Darren y Gwir Barchedig Esgob June Osbourne, Esgob Llandaf yn yr Eglwys yng Nghymru, a siaradodd wedyn am ei barn am ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddyfodol addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg o safbwynt yr Eglwys yng Nghymru.

4. Cyflwynodd Darren Angela Keller o Wasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig, a fyfyriodd ar ddogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru o safbwynt Catholig.

5. Yna, cadeiriodd Darren drafodaeth pan fynegwyd ystod eang o safbwyntiau ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru gan y rhanddeiliaid a oedd yn bresennol. Cytunodd y Grŵp ar y camau a ganlyn:

    A. Ysgrifennu at Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru er mwyn:

    - Mynegi pryder am yr effaith y mae pandemig y coronafeirws wedi'i chael ar allu pobl i ddod at ei gilydd a myfyrio ar yr ymgynghoriad ac ymateb iddo, ac i ofyn am estyniad i'r ymgynghoriad er mwyn cael rhagor o ymatebion.
    - Mynegi pryder am gynnig Llywodraeth Cymru i alluogi rhieni i eithrio eu plentyn o addysg grefyddol, a'r cynnig i gael maes llafur cytunedig ar wahân ar eu cyfer, safbwynt a rennir gan rai aelodau o'r Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd.
    - Gofyn am eglurhad ar gynigion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfansoddiad Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol a'r grwpiau newydd a sut y bydd y grwpiau hyn yn rhyngweithio â'r Cynghorau ym mhob ardal leol.

6. Diolchodd Darren i bawb am ei gyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.